

Prosiect Myrddin
Ann Parry Owen, 26 Tachwedd 2021

Bwriad y prosiect newydd a chyffrous hwn yw creu astudiaeth a golygiad newydd o'r farddoniaeth sy'n gysylltiedig ag enw'r bardd chwedlonol Myrddin. Cysylltir Myrddin yn aml â'r Brenin Arthur mewn chwedloniaeth – ac roedd y ddau wrth gwrs yn brif gymeriadau yn y gyfres deledu boblogaidd *Merlin* (2008–2012).

Mae yna gorff mawr o farddoniaeth wedi ei briodoli i Fyrddin mewn llawysgrifau sy'n dyddio rhwng tua 1250 a 1800. Diogelwyd y cerddi cynharaf, tair ohonynt, yn Llyfr Du Caerfyddin, y llawysgrif Gymraeg gynharaf. Cedwir y llawysgrif hon yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dan yr enw Peniarth 1, a gallwch bori drwyddi wefan y Llyfrgell.

Dyma ddalen o'r Llyfr Du yn cynnwys un o'r cerddi y byddwn ni'n gweithio arni. Mae'r gerdd yn cynnwys cyfres o benillion yn cychwyn â'r geiriau 'Oian a pharchellan', yn llais Myrddin ei hun. Ar ôl byw bywyd da a chyfforddus yn y gorffennol yn llys ei arglwydd Gwenddolau, daeth tro ar fyd. Lladdwyd Gwenddolau ym Mrwydr Arfderydd, a bellach mae Myrddin wedi mynd yn wallgof ac yn byw mewn unigedd a galar yng Nghoed Celyddon. Yn y penillion hyn mae'n siarad gyda mochyn bach (y *parchellan*) ac yn rhannu atgofion gydag ef am y gorffennol, ond hefyd yn darogan am ffawd y Cymry sy'n ceisio amddiffyn eu tiroedd a'u hawliau yn wyneb bygythiadau o du'r Normaniaid.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae elfen gref o bropaganda politicaidd yr oes yn y penillion hyn, ac mae'n amlwg fod Myrddin wedi ei gysylltu â phroffwydoliaeth yn gynnar yn hanes ein llenyddiaeth. Dros y

canrifoedd dilynol byddai'r beirdd yn aml yn cyfansoddi eu cerddi darogan yn llais Myrddin, wrth iddynt ymateb i gyfres o fygythiadau i'w gwlad gan y Saeson o'r dwyrain. Yng nghwrs y prosiect byddwn ni'n edrych ar y cerddi diweddarach hynny, tua 100 ohonynt (ymhell dros 4,000 o linellau) ac yn gweld sut yr oedd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o feirdd yn defnyddio llais Myrddin at eu pwrpas eu hunain. Bydd modd edrych hefyd bwysigrwydd enw a chwedl Myrddin mewn enwau lleoedd (fel Caerfyrddin, wrth gwrs), yn ogystal â gosod y cerddi mewn cyd-destun Ewropeaidd ehangach. Mae'n mynd i fod yn waith cyffrous ac amlweddog iawn.

Mae'r farddoniaeth gynharaf yn astrus iawn – ac mae'n hen bryd ailedrych arni yng ngoleuni gwybodaeth newydd sydd gennym am iaith a barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol o ganlyniad i ymchwil prosiectau mawr fel Prosiect Beirdd y Tywysogion a Phrosiect Beirdd yr Uchelwyr, heb sôn am waith cwbl sylfaenol *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

Yn ogystal â chyflwyno testun o'r holl gerddi, gyda chyfieithiadau a nodiadau llawn, byddwn hefyd yn cynnwys lluniau o'r llawysgrifau, trawsysgrifiadau, ac adnoddau eraill. Byddwn yn dilyn patrwm go debyg i Wefan [Guto'r Glyn](#).

Bydd y gwaith technegol ar y golygiad digidol hwn yn cael ei arwain gan Dr Alexander Roberts o Brifysgol Abertawe, a ddatblygodd Wefan Dafydd ap Gwilym yn ogystal â Gwefan Guto'r Glyn. Bydd profiad Alex yn y maes hwn yn anhepgor. Y dyddiau hyn, wrth wneud cais am arian prosiect mawr i gynghorau cyllido ymchwil, mae bron yn ddisgwyliedig bod ffrwyth y gwaith yn cael ei gyhoeddi yn rhad ac am ddim ar wefan. Wrth gwrs mae hynny'n beth da iawn, gan sicrhau fod y gwaith ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim, dros y byd. Ond arbenigwyr ar iaith a llenyddiaeth yw'r ychwylywyr gan amlaf, nid arbenigwyr ar greu gwefannau!

Dyfarwyd £716,013 i Brosiect Myrddin gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC). Bydd y prosiect tair mlynedd hwn (1 Mawrth 2022 – 28 Chwefror 2025) yn cael ei arwain gan y Prif Ymchwilydd, Dr Dylan Foster Evans o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a bydd tri Chyd-Ymchwilydd yn arwain ar wahanol agweddau ar y gwaith: Dr David Callander o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd; yr Athro Ann Parry Owen o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a Geiriadur Prifysgol Cymru; a Dr Alexander Roberts o Brifysgol Abertawe. Byddwn hefyd yn cyflogi dau ymchwilydd i weithio ar y prosiect, ac mae hysbysebion am y swyddi hynny yn y Wasg ar hyn o bryd.